# RYDYM YN RECRIWTIO

Ymunwch â'r adran Bwyd a Diod yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf.












# Cynorthwyydd Arlwyo a Blaen Tŷ

LLleoliad:  Caffi R, Rhuthun

Cyflog: Graddfa 1, £9.30 yr awr / £17,943 y flywddyn

Oriau: 37 awr yr wythnos,  yn flynyddol (ar gyfartaledd dros y flwyddyn)

Contract: Parhaol

Dyddiad Cau: **1 Tachwedd 2021**

## Sut i wneud cais:

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd wag hon, gwnewch gais ar-lein trwy ein gwefan www.hamddensirddinbych.co.uk Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Sir Ddinbych ar 01824 706100.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn Gwmni Masnachu Cyfyngedig drwy Warant sy'n eiddo i'r Cyngor, ac felly caiff ffurflenni cais eu gweinyddu gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais trwy'r wefan er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

## Neges oddi wrth ein Rheolwr-Gyfarwyddwr



Helo, fy enw yw Jamie Groves, a fi yw'r Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Am fod gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n Cwmni, roeddwn yn credu yr hoffech gael ychydig o wybodaeth amdanom ni.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno Hamdden Sir Ddinbych Cyf, gan ein bod yn Gwmni newydd gyda thîm sefydledig, brwdfrydig ac ysgogol, sydd â diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef enw da o brofiadau gwych yn ein cyfleusterau i gyd a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

*"Darparu cyfleoedd hamdden hygyrch o safon uchel sy'n denu lefelau cyfranogi uchel, a gwella lles ein trigolion ac ymwelwyr"*

Mae ein hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r safon orau i gwsmeriaid yn parhau o un flwyddyn i'r llall, ac mae'r rhaglen dreigl hon o fuddsoddiad yn ein cyfleusterau wedi arwain at enw da am ddarparu cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a hamdden i'n preswylwyr ac ymwelwyr, sydd yn cael eu cymharu â'r rhai gorau yn y sector breifat. Mae ein saith Canolfan Hamdden yn cynnig cyfarpar campfa o'r radd flaenaf ac ystod eang o ddosbarthiadau ffitrwydd. Ar draws y sir, mae gennym chwe pwll nofio, yn ogystal â neuaddau chwaraeon a chaeau aml dywydd.

I'r rheiny sydd yn chwilio am ddiwrnod llawn hwyl, mae gennym barc dŵr SC2 gyda Tag Ninja yn y Rhyl, y Nova – ein lleoliad orau i ymwelwyr ym Mhrestatyn, a Chanolfan Bowls Gogledd Cymru. Rydym yn cynnig bwyd arbennig a choctêls ym Mwyty a Bar 1891 yn y Rhyl, neu bitsa a gwydraid oer o win gwyn yn yr haul yn y Beach Hut ym Mhrestatyn. I'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y celfyddydau, efallai hoffech ymweld â Chanolfan Grefft Rhuthun, Canolfan ar gyfer y Celf Cymhwysol gyda 3 oriel yn dangos celf gymhwysol cenedlaethol a rhyngwladol orau. Mae gan ein tîm Cymunedau Actif prysur gyfoeth o brofiadau yn eu sectorau eu hunain, a gyda'i gilydd maent yn cyfuno eu sgiliau i gynnig rhaglen amrywiol o ansawdd uchel, a chyfleodd hamdden cynhwysol. Mae pawb wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid, felly os mai cynnal parti pen-blwydd neu helpu rhywun wella eu hiechyd a ffitrwydd ydyw, rydym bob amser yn barod i helpu.

Ein staff sy'n sail i'n llwyddiant, ac mae gennym dîm gwych yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Rydym yn cynnig cyfleoedd eang i hyfforddi a datblygu gyrfa, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein staff yn hapus yn eu rôl. Os ydych yn angerddol dros ddarparu gwasanaeth rhagorol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch, gyda'r awydd i helpu cydweithwyr a chwsmeriaid, yna byddwch yn gartrefol iawn gyda ni.

Rydym ni'n edrych ymlaen at dderbyn eich cais.

# Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf. yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol a llawn cymhelliant sydd â diwylliant o ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel a rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef cyfleusterau uchel iawn eu parch a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'n staff ymrwymo i;

- Ddarparu gwasanaeth o safon rhagorol bob amser
- Sicrhau eu datblygiad eu hunain a datblygiad ein busnes
- Gweithio'n hyblyg ar draws safleoedd lle bo angen
- Cefnogi gwaith tîm, cefnogi eu cydweithwyr a'n cwsmeriaid

Mae ein gweithlu yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bawb sy'n gweithio i Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth campfa am bris gostyngol, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, hawl i wyliau blynyddol hael (gyda chyfle i brynu mwy) a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiant gyrfa a secondiadau.

**Ein Pobl | Ein Busnes | Ein Cymuned**



# Swydd-ddisgrifiad

**Teitl y Swydd: Cynorthwyydd Arlwyo a Blaen Tŷ**
**Graddfa:1**
**Gwasanaeth: Hamdden Sir Ddinbych Cyf**
**Maes Gwasanaeth: Bwyd a Diod**
**Ynatebol i: Oruchwyliwr y Bwyty / Gorchuchwyliwr**
**Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi:03839**

## Pwrpas y Swydd:

Cymryd archebion bwyd a diod gan gwsmeriaid, prosesu taliadau, ac i glirio byrddau ar ôl i'r cwsmeriaid adael. Mewn rhai safleoedd, cyfarch cwsmeriaid wrth iddynt gyrraedd a mynd â nhw at eu bwrdd, gan roi bwydlenni allan a chymryd archebion ar gyfer bwyd a diod. Sicrhau lefelau uchel o fodlonrwydd i gwsmeriaid trwy wasanaeth ardderchog o ran bwyd, diodydd, danteithion ac eitemau manwerthu.

Cynnal safonau rhagorol o ran golwg y safle a hylendid i helpu i greu amgylchedd ardderchog i'r ardal fwyta/bar/atyniadau a chwarae rhan hanfodol yn y profiad cyffredinol i ymwelwyr a sicrhau bod yr ymwelwyr hynny'n gadael adolygiadau cadarnhaol ac yn dychwelyd.

## Prif yfrifoldebau:

- Darparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid
- Mewn rhai safleoedd - Cymryd archebion, gweini bwyd a diodydd drwy'r cownter gwasanaeth/ allfa bwyd
- Mewn rhai safleoedd -paratoi byrddau, croesawu cwsmeriaid, cymryd archebion, cynghori cwsmeriaid ar ddewisiadau'r fwydlen, gweini prydau a diodydd , canfod anghenion gwesteion a bod ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.
- Cydymffurfio â 'Check 25' wrth weini alocohol
- Gweithio'n agos â chydweithwyr yn y gegin a chydweithwyr eraill i sicrhau cyfathrebu ardderchog a bodlonrwydd cwsmeriaid
- Cadw'r bwyty, caffi, bar, unedau manwerthu ac ardaloedd cyfagos yn lân, gan gynnwys glanhau a golchi llestri a chyllyll a ffyrc ac ati
- Ail-lenwi stoc ym mhob ardal fel bo angen
- Cymryd taliadau a delio â thaliadau
- Delio â'r broses mannau gwerthu gan gynnwys annog cwsmeriaid i brynu ar unrhyw gyfle er mwyn cynyddu refeniw
- Gweithio'n agos gyda staff y gegin a'r bar i sicrhau boddhad cwsmeriaid rhagorol
- Cydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau'r cwmni
- Bod â gwybodaeth dda am gynnyrch
- Cyfathrebu â chwsmeriaid er mwyn datrys cwynion neu sicrhau eu boddhad
- Bod yn ymwybodol o'ch iechyd a diogelwch eich hunain a phobl eraill o'ch cwmpas bob amser

## Adnoddau / Offer / Deunyddiau

Offer bar / bwyty / cownter bwyd safonol

## Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

- Bydd gan ddeiliad y swydd sgiliau gwasanaeth cwsmer ardderchog
- Meddu ar safon uchel o hylendid personol
- Gallu peidio â chynhyrfu dan bwysau
- Gallu blaenoriaethu tasgau a gweithio o fewn terfynau amser
- Ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch
- Gallu gweithio ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm
- Hyblygrwydd i weithio mewn nifer o safleoedd os oes angen

## Amodau Gwaith Arbennig

Mae’r patrwm sifftiau’n cynnwys gweithio gyda’r nos ac ar y penwythnos. Mae’n bosibl y bydd gofyn i chi helpu mewn cyfleusterau eraill weithiau.

## Gwiriadau cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae'n ofynnol i bob dechreuwr newydd gael ein gwiriadau recriwtio safonol; dau gyfeiriad boddhaol dros dair blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o Hawl i Weithio yn y DU.

## Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac oedolion ynghyd ag atal caethwasiaeth a masnachu pobl a byddent yn gwneud popeth yn eu gallu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnes. Gall caethwasiaeth fodern fod ar sawl ffurf gan gynnwys masnachu pobl, llafur gorfodol, caethwasanaeth a chaethwasiaeth.

Busnes pawb yw diogelu ac mae'n ofynnol i holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Plant / Oedolion y sefydliad. Maen ddyletswydd ar bawb i roi gwybod am unrhyw bryderon y gellir eu nodi yn ystod eu dyletswyddau a gofynnir i bawb fod yn effro iddynt. Dylid codi pryderon am unrhyw arwyddion cam-fanteisio trwy eu Rheolwr Diogelu Dynodedig er mwyn i'r sefydliad allu ymateb ar unwaith.

## Gweledigaeth / Cyd-destun

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi cael ei drawsnewid dros y degawd diwethaf a bellach yn cael ei adnabod am ddarparu safonau uchel o ddarpariaeth ar draws Sir Dinbych; gyda chynigion hamdden newydd, unigryw, fforddiadwy a chynaliadwy yn fasnachol; wrth wneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd ein preswylwyr a sicrhau ffyniant economaidd. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd gweithlu brwdfrydig iawn, gyda diwylliant gwych sy'n gweithio gyda gwerthoedd cryf.

Disgwylir i ddeiliad y swydd arddangos a hyrwyddo gwerthoedd craidd ein cwmni:

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr bob amser, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn cryfhau ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.

Mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf dri philer pwysig, ond gwahanol, sy'n llywio ac yn dylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n gweithio a pham y cafodd y Cwmni ei greu. Mae'r Cwmni'n cael ei gydnabod am y cyfraniad gwerthfawr y mae'n ei wneud i'n cymunedau, sut mae'n gweithio gyda phartneriaid a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth sut mae'r Cwmni'n gofalu am a datblygu ei weithlu - mae'r Cwmni'n credu'n fawr mewn athroniaeth ‘un tîm - un cyfrif banc’.



## Tair colofn Hamdden Sir Ddinbych Cyf:

### Ein Cymuned

O fewn ardal ehangach Sir Ddinbych, mae ein timau'n gweithio gyda rhwydwaith o gymunedau llai sy'n cynnwys cwsmeriaid, clybiau chwaraeon, grwpiau lleol a thrigolion. Rydyn ni'n gosod y cymunedau hyn wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud.

### Ein Pobl

Credwn fod ein staff yn elfen hanfodol o lwyddiant Hamdden Sir Ddinbych. Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r profiad y mae pob unigolyn yn cynnig i'w rôl ac er bod y Cwmni'n cynnig ystod amrywiol o wasanaethau, mae gan bob un o'r timau'r un rhinweddau yn gyffredin - maent yn angerddol ac yn llawn cymhelliant, gyda diwylliant o berfformiad uchel ac enw da am Wasanaeth Cwsmer rhagorol.

### Ein Busnes

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn Gwmni newydd, wedi'i adeiladu ar hanes o berfformiad uchel ac arfer arloesol. Dros y blynyddoedd diwethaf, fel gwasanaeth yng Nghyngor Sir Dinbych, rydym wedi meithrin perthnasoedd parhaol a buddiol i bawb gyda nifer o bartneriaid. Rydym yn edrych ymlaen at lwyddiant parhaus y partneriaethau sefydledig hyn, wrth ddatblygu mentrau newydd a chyffrous hefyd. Ym mhob un o'n perthnasoedd, rydym wedi ymrwymo i weithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a chwrteisi.

Mae deiliad y swydd yn allweddol i sicrhau erbyn 2030...'y bydd y cwmni yn parhau i gael ei gydanbod am ddarparu cyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd uchel sy’n denu lefelau uchel o gyfranogiad, ac yn gwella lles trigolion ac ymwelwyr Sir Ddinbych'.



# Manylion am yr Unigolyn

Mae'r Fanyleb yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meiniprawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n bertnnasol).

Teitl y Swydd: Cynorthwyydd Arlwyo a Blaen Tŷ

Gwasanaeth: Bwyd a Diod

Graddfa: 1

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| Addysg a chymwysterau | | Cymhwyster lletygarwch<br><br>Tystysgrif Hylendid Bwyd Lefel 2 | Ffurflen gais |
| Profiad perthnasol | Nid yw profiad blaenorol yn angenrheidiol, fodd bynnag mae parodrwydd i ddysgu yn y gwaith yn hanfodol | Profiad o weithio mewn bwyty / bar / allfa bwyd masnachol | Ffurflen gais<br><br>Cyfweliad |
| Gwybodaeth a sgiliau cysylltiedig â'r swydd | Rhaid bod yn drefnus a sylwgar<br><br>Gallu gweithio dan bwysau ar adegau a pheidio â chynhyrfu<br><br>Prydlon a dibynadwy | | Ffurflen gais<br><br>Cyfweliad |

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Dull Asesu |
| --- | --- | --- | --- |
| **Nodweddion personol** | Sgiliau ardderchog o ran cyfathrebu ac ymwneud â phobl<br><br>Gallu gweithio ar eich menter eich hun ac fel rhan o dîm<br><br>Croesawgar gydag agwedd gadarnhaol at waith<br><br>Rhaid i'r person fod yn lân, yn daclus ac ymfalchïo yn eu gwaith | | **Ffurflen gais**<br><br>**Cyfweliad** |
| **Gofynion eraill** | Empathi gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru. | Y gallu i gyfathrebu trwy y Gymraeg | **Ffurflen gais**<br><br>**Cyfweliad** |




**Diolch am eich diddordeb**

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch Dafydd Howatson, Rheolwr Gweithrediadau Bwyd a Diod, ar Daf.Howatson@denbighshireleisure.co.uk neu 01824 706672.

www.hamddensirddinbych.co.uk

Hamdden Sir Ddinbych

@HamddenSDd

hamdden leisure